Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Feithrin Sant Aubin
**503a Cowbridge Rd East**
**Treganna**
**Caerdydd**
**CF5 1BB**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2019**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Feithrin Sant Aubin

| | |
|---|---|
| Enw’r lleoliad | Ysgol Feithrin Sant Aubin |
| Categori’r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | Sue Evans |
| Unigolyn cyfrifol (os yw’n berthnasol) | Susan Shepherd - Evans |
| Person â gofal | Chloe Minto |
| Nifer y lleoedd | 32 |
| Amrediad oedran y plant | 2 i 5 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 0 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 7:30 – 18:00 Llun – Gwener gyda darpariaeth achlysurol ar ddydd Sadwrn |
| Gwasanaeth Dechrau’n Deg | Nac ydy |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw’r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu “cynnig gweithredol” y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 21/02/2018 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 14/09/2015 |
| Dyddiadau’r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 02/10/2019 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

Mae'r lleiafrif o blant yn dod o gartrefi lle siaredir Cymraeg ac mae ychydig yn dod o gartrefi lle na siaredir Cymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf.

Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy'n defnyddio, neu a allai, ddefnyddio'r gwasanaeth.

## Crynodeb

| **Thema** | **Barn** |
|---|---|
| **Lles** | **Rhagorol** |
| **Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Dd/b** |
| **Gofal a datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Diffyg cydymffurfio

**Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.**

## Argymhellion

A1 Gwella dealltwriaeth ymarferwyr o sut i ddatblygu medrau pob plentyn yn unigol o fewn gweithgareddau er mwyn herio eu medrau ymhellach

A2 Ehangu cyfleoedd i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant ar draws yr holl ardaloedd tu mewn a thu allan

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.'Bydd Estyn ac AGC yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Rhagorol

Mae bron pob plentyn yn datblygu lefel eithriadol o uchel o les yn y lleoliad. Maent yn gwneud cynnydd arbennig o dda wrth ddatblygu eu medrau personol a chymdeithasol, ac yn dangos mwynhad mawr yn eu chwarae a'u dysgu. Mae bron pob plentyn yn symud yn rhydd o amgylch y lleoliad ac yn dewis yn ddeallus o'r ystod diddorol o weithgareddau ac adnoddau sydd ar gael. Maent yn mynegi eu hunain yn hyderus gan ddefnyddio lleferydd ac ystum. Mae’r holl blant yn gwybod bod ymarferwyr yn gwerthfawrogi rhyngweithio â nhw ac yn hyderus y byddant yn ymateb yn briodol. Maent yn cyfathrebu am eu diddordebau yn effeithiol ac mae'r rhain yn bwydo i mewn i themâu a phynciau yn llwyddiannus, er enghraifft mynd i’r ysgol a’r hydref.

Mae bron pob plentyn yn ymdopi'n dda iawn pan fyddant wedi gwahanu oddi wrth eu rhieni a'u gofalwyr wrth gyrraedd y lleoliad. Maent yn ffurfio ymlyniadau cadarnhaol gyda'u gweithwyr allweddol, sy'n cael effaith dda dros ben ar eu lles a'u cymhelliant. Maent yn dewis yn hyderus o’r ystod o weithgareddau cyfarwydd sydd ar gael ar ddechrau'r sesiwn, ac yn canolbwyntio arnynt yn gyflym iawn. Mae bron pob un yn datblygu eu synnwyr o berthyn a hunan-werth yn fuddiol, ac yn falch o weld eu cyflawniadau yn cael eu dathlu mewn arddangosfeydd o amgylch yr adeilad.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn canolbwyntio'n arbennig o dda ac yn annibynnol iawn wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau ysgogol. Maent yn rhannu ac yn cydweithredu'n dda iawn gyda phlant eraill, gan arddangos creadigrwydd a dychymyg rhagorol, er enghraifft wrth iddynt greu adeilad allan o focsys cardfwrdd. Maent yn dilyn eu diddordebau ac yn frwd iawn wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae rôl eithriadol. Enghraifft dda o hyn yw’r ffordd maent yn gofalu am ddoliau a gwerthu llysiau yn y siop.

Mae bron pob plentyn yn ymddwyn yn dda iawn yn ystod chwarae rhydd ac yn ystod cyfnodau grŵp. Mae llawer yn rhannu adnoddau’n dda ac yn dechrau deall sut i gymryd eu tro yn llwyddiannus, er enghraifft trwy gydweithio’n effeithiol wrth rolio toes, a chwarae gyda thywod. Mae llawer yn deall yn ystyrlon y gwahaniaeth rhwng yr hyn sy’n gywir ac yn anghywir ac maent yn dweud ‘diolch’ yn gwrtais, pan fo’n briodol. Mae bron pob plentyn yn parchu adnoddau'r lleoliad ac yn eu defnyddio’n briodol. Maent yn deall y dylent gadw’r adnoddau pan fyddent wedi gorffen gyda nhw, ac yn ymuno â thacluso yn arbennig o effeithiol.

Mae bron pob plentyn yn ymfalchïo yn eu gallu i arddangos eu medrau newydd wrth iddynt arbrofi ag ystod eang o brofiadau dysgu. Maent yn datblygu eu medrau hunangymorth yn llwyddiannus iawn yn ystod amser byrbryd, ac mae hyn i bob pwrpas yn datblygu hunan-barch y plant. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn defnyddio dyfeisiau bach fel cyllell i dorri ffrwythau a llysiau amser byrbryd, ac yn golchi eu llestri ar ôl gorffen gyda rheolaeth dda. Mae bron pob plentyn yn adeiladu ar eu medrau, gwybodaeth a phrofiadau blaenorol yn dda iawn i'w cefnogi yn eu chwarae.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Dd/b**

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Rhagorol**

Mae'r ymarferwyr yn dilyn systemau a gweithdrefnau trylwyr a chadarn sy'n sicrhau iechyd a diogelwch plant yn effeithiol iawn. Mae ganddynt ddealltwriaeth gref o'u cyfrifoldebau, a thrwy arferion beunyddiol, maent yn darparu cyfleoedd gwych i blant ddatblygu a rhagori. Mae gan pob ymarferydd ddisgwyliadau uchel o'r plant sy'n cael effaith gadarnhaol iawn ar eu datblygiad personol. Mae systemau'r lleoliad ar gyfer sicrhau bod ymarferwyr yn dilyn yr holl weithdrefnau diogelu yn drefnus ac yn effeithiol dros ben. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd maent wedi datblygu system effeithiol iawn wrth gofnodi pryder am blentyn a'r camau a gafodd eu dilyn. Yn ogystal, mae'r cofnodion damweiniau'n drylwyr iawn ac yn cael eu gwerthuso'n rheolaidd. Mae hyn yn gryfder mawr yn y lleoliad. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid oes unrhyw achos o bryder.

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw yn dda. Maent yn darparu bwyd iachus ac yn dysgu plant am hylendid yn effeithiol. Maent yn helpu'r plant i olchi eu dwylo ar amseroedd priodol a darparu cyfleoedd gwerth chweil i blant ddysgu edrych ar ôl eu dannedd. Mae digon o gyfleoedd gwerthfawr i blant fwynhau awyr iach ac elwa o ymarfer corff yn rheolaidd.

Mae'r ymarferwyr yn rheoli ymddygiad y plant yn effeithiol iawn sy'n creu ethos cadarnhaol. Maent yn modelu ymddygiad yn llwyddiannus iawn, ac yn atgoffa'r plant yn rheolaidd i rannu teganau a sut i ymddwyn yn briodol. Mae gan y lleoliad bolisi trylwyr sydd yn canolbwyntio ar hybu ymddygiad positif a rhoddir anogaeth a chefnogaeth i'r plant ddatrys unrhyw wrthdaro eu hunain. Mae'r ymarferwyr yn canmol y plant yn aml sydd yn atgyfnerthu eu hunanhyder yn effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u hanghenion a'u hoffterau unigol.

Mae'r ymarferwyr yn diwallu anghenion a dewisiadau unigol y plant yn arbennig. Maent yn ymateb i syniadau a diddordebau'r plant yn fendigedig ac yn ymuno'n frwd mewn chwarae a dysgu plant. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn llwyddo i wneud amser byrbryd yn weithgaredd cymdeithasol gyda digon o gyfleoedd i blant sgwrsio â'i gilydd ac oedolion. Mae ymarferwyr yn adnabod anghenion y gwahanol grwpiau oedran ac yn darparu cyfleoedd dysgu sy'n cefnogi datblygiad medrau plant yn effeithiol. Mae gan y lleoliad weithdrefnau buddiol i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio asesiadau'n ddeallus i adnabod plant sydd angen cymorth ac i drefnu darpariaeth addas ar eu cyfer. Maent yn cydweithio ag asiantaethau allanol yn effeithiol i gefnogi plant yn ôl yr angen.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio ardaloedd dysgu'n llwyddiannus sy'n adlewyrchu eu dealltwriaeth drylwyr o athroniaeth y cyfnod sylfaen. Maent yn darparu profiadau dysgu diddorol a chyfleoedd buddiol i arbrofi yn yr ardaloedd sy'n ennyn diddordeb llawer o'r plant yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae ffrwythau a llysiau go iawn yn y siop a chyfle i baentio gan ddefnyddio concar. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn briodol ac yn cynnig cyfleoedd addas i blant ddefnyddio camerâu a chyfrifiaduron llechen yn eu dysgu. Ceir cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau corfforol a chreadigrwydd y plant, er enghraifft wrth gynnal sesiynau dawns gyda'r plant yn gyson.

Mae'r ymarferwyr yn canolbwyntio'n dda ar ddatblygu Cymraeg y plant trwy ailadrodd geiriau ac ymadroddion yn gyson ynghyd â chanu hwiangerddi cyfarwydd, er enghraifft wrth ailadrodd enwau anifeiliaid ar y fferm yn yr ardal byd bach. Mae'r arferion rheolaidd yn cefnogi'r plant i ddechrau ymateb yn syml yn y Gymraeg.

Mae'r ymarferwyr yn asesu cynnydd y plant yn dda ac yn cael cyfarfodydd rheolaidd i fwydo'r asesiadau i'r camau nesaf yn eu dysgu. Mae'r berthynas hyfryd a chynhaliol sy'n bodoli rhwng y plant a'r ymarferwyr yn nodwedd gref o'r ddarpariaeth. Maent yn eu hadnabod yn dda, ac yn cydweithio ochr yn ochr â nhw yn ystod eu gweithgareddau er mwyn trafod a holi'r plant yn fedrus. Fodd bynnag, nid ydynt bob tro'n datblygu medrau pob plentyn yn unigol o fewn gweithgareddau er mwyn eu herio ymhellach.

Mae pwyslais clir gan ymarferwyr ar ddathlu amrywiaeth a datblygu medrau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant, fel blasu bwydydd gwahanol ddiwylliannau a gwisgo gwisgoedd traddodiadol. Mae'r lleoliad yn cynllunio cyfleoedd buddiol i'r plant ddysgu am Gymru a thraddodiadau fel Dydd Gŵyl Dewi, er enghraifft trwy goginio a gwisgo i fyny. Maent yn gwneud defnydd arbennig o'r ardal leol er mwyn dangos bod y Gymraeg yn fyw yn y gymuned, er enghraifft trwy ymweld â'r siop leol i brynu ffrwythau a llysiau a mynychu'r llyfrgell ar gyfer sesiynau stori a chân.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd diogel a glân i blant ac mae gweithdrefnau hynod drylwyr i gefnogi hyn. Er enghraifft, mae'r arweinwyr yn diweddaru asesiadau risg yn rheolaidd ac yn sicrhau bod gwiriadau diogelwch dyddiol effeithiol ar yr amgylchedd. Mae'r holl ymarferwyr yn wyliadwrus ynghylch cadw plant yn ddiogel. Mae mynediad i'r adeilad trwy ddrws diogel, a gofynnir i ymwelwyr fewngofnodi. Mae'r toiledau a'r cyfleusterau newid cewynnau yn lân ac yn cydymffurfio â gofynion glendid. Cynhelir dril tân yn rheolaidd, a sicrheir bod gwiriadau diogelwch yr offer tân a thrydan yn gyfredol.

Mae'r plant yn derbyn gofal mewn adeilad pwrpasol iawn, sydd wedi ei gynllunio i annog y plant i ddysgu a datblygu. Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o'r amgylchedd mewnol ac allanol. Maent yn darparu ardaloedd chwarae a dysgu ysgogol, sy'n cynnwys ardaloedd tawel a chwarae rôl, cyfleoedd i blant ymchwilio ac ymholi a gweithgareddau i effeithio'n gadarn ar eu creadigrwydd. Mae'r ardal awyr

agored yn cynnig cyfleoedd da i blant dreulio amser yn defnyddio ac arbrofi ag adnoddau mewn amgylchedd deniadol. Mae yna ardal gysgodol y tu allan sy'n cynnal gweithgareddau diddorol. Mae cynllun y lleoliad yn hyrwyddo annibyniaeth plant yn effeithiol, ac yn eu galluogi i symud o gwmpas yn rhydd a dewis yr adnoddau maent am eu defnyddio.

Mae dodrefn, offer, teganau ac adnoddau'r lleoliad yn ddeniadol ac o ansawdd da iawn. Mae'r rhain yn cefnogi lles a dysgu plant yn effeithiol iawn, ac yn hyrwyddo annibyniaeth plant yn dda. Er enghraifft, mae offer realistig yn y gornel cartref sy'n denu ac ysbrydoli plant. Mae adnoddau gwerth chweil sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol yn effeithiol, a llawer o adnoddau pren a naturiol deniadol i blant eu defnyddio. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn gosod dail a hadau'r hydref i blant arbrofi â nhw. Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd addas i ddatblygu medrau ysgrifennu cynnar o fewn rhai ardaloedd dysgu. Er enghraifft, mae cofrestr yn yr ardal chwarae rôl ysgol a phapur ac offer ysgrifennu yn y siop tu allan. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws yr ardaloedd dysgu.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol**

Mae gan y person cofrestredig a'r rheolwraig weledigaeth hynod glir sy'n seiliedig ar ddarparu addysg a gofal gorau posibl i bob plentyn mewn amgylchedd cartrefol, hwyliog a chyfeillgar. Maent yn meddu ar drefniadau cyson a chydamserol ardderchog ar gyfer gwerthuso a gwella ansawdd sy'n rhoi cyfeiriad a strwythur cadarn i waith y lleoliad. Maent yn arwain eraill yn ardderchog ac yn llywio gweithdrefnau hunanwerthuso arloesol. Maent yn cynllunio'n ddiwyd iawn i greu gwelliannau pwrpasol i'r dyfodol. Mae'n broses fyw, sy'n galluogi iddynt fonitro ac arfarnu'r gwaith yn gyson yn feistrolgar. Mae pob ymarferwr yn cyfrannu at y broses yn adeiladol ac mae eu barnau'n bwysig i'r tîm rheoli. O ganlyniad, mae'r arferion dyddiol yn llwyddiannus dros ben ac yn sicrhau darpariaeth ysgogol.

Mae'r tîm rheoli yn gweithredu gweithdrefnau rhagorol ar gyfer recriwtio'n ddiogel, a rheoli staff ac adnoddau. Mae ganddynt ddull cynhwysol o arwain, ac mae'r rheolwyr yn datblygu ymarferwyr yn llwyddiannus drwy ddirprwyo cyfrifoldebau sy'n cael eu hystyried yn ofalus. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldebau fel gweithwyr allweddol ac arweinydd safle.

Mae'r person cofrestredig yn defnyddio cyllid yn ddoeth i gefnogi blaenoriaethau gwella a diwallu anghenion y plant yn effeithiol. Maent yn darparu adnoddau deniadol o ansawdd uchel sy'n cefnogi lles a datblygiad y plant yn llwyddiannus. Mae'r tîm rheoli a'r arweinydd yn monitro a gwerthuso ansawdd adnoddau ac offer yn arbennig o dda i sicrhau eu bod yn briodol, mewn cyflwr da ac yn diwallu holl anghenion y plant.

Mae sesiynau un i un misol yr ymarferwyr yn cael eu cynnal gan y person cofrestredig neu'r rheolwraig. Mae'r gweithgarwch hwn a'r sesiynau goruchwylio yn llywio gwerthusiadau blynyddol sy'n amlygu anghenion hyfforddi ymarferwyr yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn diweddaru eu gwybodaeth yn rheolaidd ac yn gwybod beth i'w wneud i wella. Er enghraifft, mae rheolwraig y lleoliad wedi trefnu hyfforddiant ar feddalwedd diogelu plant i sicrhau cysondeb wrth gofnodi tystiolaeth. Maent hefyd yn egluro unrhyw newidiadau o fewn polisïau i sicrhau dealltwriaeth gadarn ymysg pob un o'r ymarferwyr.

Mae'r ymarferwyr wedi meithrin ystod o bartneriaethau cynhyrchiol sy'n cefnogi gwaith y lleoliad yn dda iawn. Mae partneriaeth ardderchog gyda rhieni lle maent yn cael eu diweddaru'n ddyddiol am ddiwrnod eu plentyn yn electronig a thrwy gynnal nosweithiau rhieni. Mae gan y lleoliad bolisi drws agored ac mae un o'r ymarferwyr bob amser yn cyfarch y rhieni wrth y drws ac yn barod i drafod materion perthnasol gyda nhw yn y fan a'r lle, os yw'n briodol. Mae'r arweinydd yn rhoi cyfle i rieni neu aelodau o deuluoedd y plant gyfrannu unrhyw arbenigedd penodol sydd ganddynt sy'n gysylltiedig â themâu penodol. Mae'r ymarferwyr yn gweld budd mawr mewn cynorthwyo'r plant gyda'r broses o drosglwyddo i'r ysgol gynradd leol. Er enghraifft, mae athrawes yn dod i'r lleoliad i ddarllen stori i'r plant yn gyson. Mae hyn oll yn arwain at gefnogaeth werthchweil at les a datblygiad y plant.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 09/12/2019